# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr-Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR PENODIADAU | APPOINTMENTS COMMITTEE |
| DYDD GWENER,<br>27 CHWEFROR 2015 am 2.00 o'r gloch | FRIDAY,<br>27 FEBRUARY, 2015 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol/Independent**

H. Eifion Jones, Derlwyn Hughes, T. Victor Hughes, Ieuan Williams

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Vaughan Hughes, Carwyn Jones a R G Parry OBE

**Grwp Chwyldoradol / Revolutionist Group**

Jeff.M.Evans

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 27 Ionawr, 2015.

3 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i ddiffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynglwm."

4 **PENODIAD STAFF** (Tudalennau 7 - 134)

**Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

Ystyried ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer y swydd uchod a thynnu rhestr fer o ymgeiswyr.

Mae copiau o'r Disgrifiad Swydd, y Manylion Personol a'r ffurflenni cais ynghlwm.

# PWYLLGOR PENODI

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2015**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, T. Victor Hughes, Vaughan Hughes, H E Jones, Bob Parry OBE, J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog A151<br>Pennaeth Busnes y Cyngor/Swyddog Monitro (ar gyfer Eitem 6).<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Jeff M. Evans, Carwyn Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

## 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014.

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

"**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

## 4. PENODI PRIF WEITHREDWR NEWYDD AC AILSTRWYTHURO'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH

Amlinellodd y Prif Weithredwr argymhellion y Cyngor Sir llawn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2015:

- Mai Opsiwn 4 yn yr adroddiad yw'r opsiwn a ffefrir;
- Bwrw ymlaen i benodi Prif Weithredwr newydd i'r Cyngor fel blaenoriaeth;
- Dynodi swydd y Prif Weithredwr yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig ac yn Swyddog Canlyniadau i'r Cyngor;
- Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Penodi hysbysebu, asesu ymgeiswyr, llunio rhestr fer, cyfweld ymgeiswyr ac argymell unigolyn cymwys a benodir gan y Cyngor llawn;
- Dirprwyo hawl i'r Pwyllgor Penodi dderbyn cymorth ymgynghorol allanol, os yw'n dymuno, i roi cyngor ar y broses asesu ond gan gadw costau darpariaeth o'r fath cyn ised â phosib;

- Gofyn am arweiniad a sylwadau gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynglŷn â'r strwythur cyflog ar gyfer swydd y Prif Weithredwr;

- Bod swyddi statudol y Swyddog Cyllid Adran 151 a'r Swyddog Monitro yn cael eu hymgorffori o fewn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor argymhellion y Cyngor llawn yn fanwl. Rhoes yr Aelodau sylw dyledus i strwythur cyflogau'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth ynghylch hysbysebu swydd y Prif Weithredwr, asesu'r ymgeiswyr a derbyn cyngor gan ymgynghorydd allanol.

Bu Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn trafod ymhellach ganlyniadau cyflog y Dirprwy Brif Weithredwr mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith i ddarparu opsiynau ar gyfer ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth o ran arbedion effeithlonrwydd yn y pecyn o gynigion ar gyfer cyllideb 2015/16.

Yn dilyn trafodaeth faith, PENDERFYNWYD:-

- Argymell i'r Cyngor Sir mai £115k i £120k fydd cyflog y Prif Weithredwr newydd;
- Y bydd cyflog y Dirprwy Brif Weithredwr yn 90% o gyflog y Prif Weithredwr, gyda gweithredu hynny yn ddarostyngedig i'r prosesau AD priodol.
- Bydd disgrifiad swydd ar gyfer y Prif Weithredwr newydd yn cael ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Penodi a dirprwyo'r awdurdod i Gadeirydd y Pwyllgor Penodi i awdurdodi'r disgrifiad swydd ar gyfer ei hysbysebu oni cheir unrhyw newidiadau gan yr Aelodau;
- Y bydd yr hysbyseb ar gyfer swydd y Prif Weithredwr yn cael ei rhoddi ar wefan y Cyngor ac y bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi. Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hysbysebu'r swydd;
- Cytunwyd y bydd proses asesu'n rhan o'r broses recriwtio ac y bydd AD yn canfod cefnogaeth ymgynghorol ar gyfer asesu'r sawl sydd wedi ymgeisio am swydd y Prif Weithredwr newydd a dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd benodi ymgynghorydd allanol yn dilyn ymgynghori gyda Swyddogion.

**5. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

"**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**6. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro mewn perthynas â phenodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Dan Adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i'r Cyngor lenwi swydd statudol y 'Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd'.

Disgrifiwyd swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar ddynodiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, i benodi Pennaeth Dros Dro cyfredol y Gwasanaethau Democratiadd i swydd barhanol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y cyflog a nodir yn yr adroddiad.**

**EITEM YCHWANEGOL A ARDYSTIWYD GAN Y CADEIRYDD FEL EITEM FRYS (gyda phenderfyniad y Cadeirydd yn cael ei gefnogi'n amlwg gan holl Aelodau'r Pwyllgor)**

**7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

"**Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Paragraff 12 y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**8. PENNAETH GWASANAETH (TRAWSNEWID)**

Nodwyd bod swydd y Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid) yn parhau i fod yn wag a bod angen llenwi'r swydd.

**PENDERFYNWYD hysbysebu swydd y Pennaeth Gwasanaeth (Trawsnewid) a bod y Gymraeg yn angenrheidiol ar ei chyfer.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***(Teitl yr Adroddiad / Title of Report)*** ***Staff Appointments***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) Llywodraeth Leol 1972 Paragraph(s) 12, 13, 14 Act 1972 | Atodlen 12A Deddf Schedule 12A Local Government |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:- | Budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:- |
| Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar strwythur rheoli'r Cyngor ac, fel y cyfryw, mae gan y cyhoedd ddiddordeb uniongyrchol mewn cael eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â darparu, cost ac effeithionrwydd gwasanaethau yn cynnwys arbedion sy'n ymwneud â'r rheini.<br><br>This is a matter which affects the Council's management structure and , as such, the public has a direct interest in being informed about matters which relate to the delivery, cost and efficiency of services including savings relating thereto. | Mae yna ddisgwyliad cyfreithiol y bydd materion sy'n ymwneud â gweithwyr unigol y Cyngor yn cael eu trin yn gyfrinachol. Mae gan y Cyngor ddyletswyd o ymddiriedaeth a hyder mewn perthynas â'i ymwneud â'i staff ac mae'r wybodaeth yn yr adroddiad sydd ynghlwm. Mae i'r adroddiad oblygiadau cyflogaeth i'r swyddogion sy'n cael eu heffeithio ac fe all toriad dianghenriad mewn cyfrinached adael y Cyngor, fel cyflogwr, yn agored i gamau cyfreithiol.<br><br>There is a legal expectation that matters relating to individual employees of the Council are to be treated confidentially. The Council has a duty of trust and confidence in relation to its dealings with its staff and the information in the attached report. This report has employment implications for those Officers affected and any unnecessary breach of confidentiality may leave the Council, as employer, open to legal action. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na/llai na* budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth. [* - dilëwch y geiriau amherthnasol]<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs/does not outweigh* the public interest in disclosing the information. [* - delete as appropriate] | |

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 12, 13, 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth  Leol 1972.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank